# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 4**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 2**

Y WEITHDREFN AR GYFER CODI'R DRETH

**48 Pŵer i ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol**

(1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol i berson os ymddengys i ACC—

(a) bod gwarediad trethadwy wedi ei wneud yn rhywle nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath, a

(b) bod y person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth mewn cysylltiad â'r gwarediad (gweler adran 47).

(2) Rhaid i hysbysiad rhagarweiniol—

(a) nodi'r tir lle yr ymddengys fod y gwarediad trethadwy wedi ei wneud;

(b) disgrifio amgylchiadau'r gwarediad a natur y deunydd a waredwyd, i'r graddau y maent yn hysbys i ACC;

(c) datgan pryd yr ymddengys y gwnaed y gwarediad, ac os yw ACC wedi amcangyfrif pryd y gwnaed y gwarediad, esbonio sut y mae ACC wedi amcangyfrif hynny;

(d) esbonio pam fod ACC o'r farn fod y person y dyroddir yr hysbysiad iddo yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth mewn cysylltiad â'r gwarediad;

(e) datgan swm y dreth y bwriedir ei godi ar y gwarediad;

(f) esbonio sut y cyfrifwyd y swm hwnnw, gan gynnwys y dull a ddefnyddiodd ACC i bennu pwysau trethadwy'r deunydd a waredwyd.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Rhaid i hysbysiad rhagarweiniol hefyd hysbysu'r person y'i dyroddir iddo—

(a) y dyroddir hysbysiad o dan adran 49 ar ôl diwedd 45 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad rhagarweiniol,

(b) y caiff y person wneud cais i ACC ymestyn y cyfnod hwnnw, ac

(c) y caiff y person gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i ACC unrhyw bryd cyn y dyroddir hysbysiad o dan adran 49.

(4) Caiff un hysbysiad rhagarweiniol ymwneud â mwy nag un gwarediad trethadwy neu â nifer heb ei ganfod o warediadau trethadwy.

(5) Ni chaiff ACC ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol fwy na 4 blynedd ar ôl i ACC ddod yn ymwybodol o unrhyw warediad trethadwy y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(6) Ni chaiff ACC ychwaith ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol fwy nag 20 mlynedd ar ôl yr adeg yr ymddengys i ACC y gwnaed unrhyw warediad trethadwy y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.